



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2004 Rhif 3221 (Cy.277)

2004 No. 3221 (W.277)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

**Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid a
Addaswyd yn Enetig (Cymru)
2004**

**The Genetically Modified Animal
Feed (Wales) Regulations
2004**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru, yn darparu ar gyfer gorfodi a gweithredu rhai darpariaethau penodedig (sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid) yn Rheoliad (EC) Rhif 1829/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig (OJ Rhif L268, 18.10.2003, t.1). Mae Rheoliadau ar wahân yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi'r rhan honno o Reoliad (EC) Rhif 1829/2003 sy'n ymwneud â bwyd.

These Regulations, which apply to Wales, provide for the enforcement and execution of certain specified provisions (relating to animal feed) of Regulation (EC) No. 1829/2003 of the European Parliament and of the Council on genetically modified food and feed (OJ No. L268, 18.10.2003, p.1). Separate Regulations make provision for the enforcement of that part of Regulation (EC) No. 1829/2003 relating to food.

Yn benodol mae'r Rheoliadau hyn -

In particular these Regulations -

- (a) yn dynodi'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn ffurfiol fel yr awdurdod cymwys cenedlaethol i gael ceisiadau am awdurdodi'r organeddau newydd a addaswyd yn enetig i'w defnyddio ar gyfer bwyd anifeiliaid, bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys organeddau a addaswyd yn enetig neu sydd wedi'i ffurfio ohonynt, neu fwyd anifeiliaid a gynhyrchir o organeddau a addaswyd yn enetig (rheoliad 3);
- (b) yn darparu bod awdurdodau gorfodi yn gorfodi darpariaethau'r Rheoliadau hyn a darpariaethau Pennod III o Reoliad (EC) Rhif 1829/2003 (rheoliad 4);
- (c) yn pennu cosbau am fethu â chydymffurfio â rhai darpariaethau penodedig yn Rheoliad (EC) Rhif 1829/2003 (rheoliad 5 a'r Atodlen);
- (ch) yn cymhwyso amrywiol ddarpariaethau Deddf Amaethyddiaeth 1970 gydag addasiad at ddibenion y Rheoliadau hyn (rheoliad 6);

- (a) formally designate the Food Standards Agency as the national competent authority to receive applications for the authorisation of new genetically modified organisms for feed use, feed containing or consisting of genetically modified organisms, or feed produced from genetically modified organisms (regulation 3);
- (b) provide for enforcement authorities to enforce the provisions of these Regulations and Chapter III of Regulation (EC) No. 1829/2003 (regulation 4);
- (c) establish penalties for failing to comply with certain specified provisions of Regulation (EC) No. 1829/2003 (regulation 5 and the Schedule);
- (d) apply various provisions of the Agriculture Act 1970 with modification for the purposes of these Regulations (regulation 6);

- (d) yn cymhwyso amrywiol ddarpariaethau Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Samplu a Dadansoddi) 1999 (rheoliad 7);
- (dd) yn darparu pwerau a gweithdrefn ar gyfer arolygu, atafaelu a dal gafael ar fwyd anifeiliaid a amheuir ac ar gyfer ei ddinistrio neu ei waredu drwy orchymyn ynad heddwch os nad yw'n cydymffurfio â darpariaethau penodedig Rheoliad (EC) Rhif 1829/2003 (rheoliadau 8 a 9);
- (e) yn darparu terfyn amser o dair blynedd o ddyddiad cyflawni'r tramgwydd neu flwyddyn o ddyddiad ei ddarganfod gan yr erlynydd, a hwnnw'n derfyn amser y mae rhaid cychwyn erlyniadau am dramgwyddau o dan y Rheoliadau o'i fewn (rheoliad 10).

Mae arfarniad rheoleiddiol yn unol ag adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 wedi'i baratoi ar gyfer y rheoliadau hyn a'i osod yn llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghyd â Nodyn Trosi. Gellir cael copïau oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Southgate House, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW.

- (e) apply various provisions of the Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) Regulations 1999 (regulation 7);
- (f) provide powers and a procedure for the inspection, seizure and detention of suspected feed and for its destruction or disposal by order of a justice of the peace where it does not comply with specified provisions of Regulation (EC) No. 1829/2003 (regulations 8 and 9);
- (g) provide a time limit of three years from commission of the offence or one year from its discovery by the prosecutor, within which prosecutions for offences under the Regulations must be begun (regulation 10).

A regulatory appraisal pursuant to section 65 of the Government of Wales Act 1998 has been prepared for these regulations and placed in the library of the National Assembly for Wales together with a Transposition Note. Copies may be obtained from the Food Standards Agency, 11th Floor, Southgate House, Wood Street, Cardiff CF10 1EW.

2004 Rhif 3221 (Cy.277)**2004 No. 3221 (W. 277)****AMAETHYDDIAETH, CYMRU****AGRICULTURE, WALES****Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid a
Addaswyd yn Enetig (Cymru)
2004****The Genetically Modified Animal
Feed (Wales) Regulations
2004***Wedi'u gwneud* 7 Rhagfyr 2004*Made* 7 December 2004*Yn dod i rym* 17 Rhagfyr 2004*Coming into force* 17 December 2004

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(a) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(b) mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod) gan gynnwys cynhyrchu bwyd crai a mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliad a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu fwyd anifeiliaid a roddir yn fwyd i anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd a rheoli a rheoleiddio'r canlynol, sef: gollwng yn fwrriadol organeddau a addaswyd yn enetig, eu rhoi ar y farchnad neu eu symud ar draws ffiniau, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

The National Assembly for Wales being designated(a) for the purposes of section 2(2), of the European Communities Act 1972(b) in relation to measures relating to food (including drinks) including the primary production of food and measures relating to feed produced for or fed to food-producing animals and the control and regulation of the deliberate release, placing on the market and transboundary movements of genetically modified organisms, in exercise of the powers conferred by that section, makes the following Regulations:

Enwi, cychwyn a chymhwyso**Title, commencement and application**

1. O ran y Rheoliadau hyn -
- eu henw yw Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004;
 - deuant i rym ar 17 Rhagfyr 2004; ac
 - maent yn gymwys i Gymru yn unig.

1. These Regulations -
- may be cited as the Genetically Modified Animal Feed (Wales) Regulations 2004;
 - come into force on 17 December 2004; and
 - apply to Wales only.

Dehongli**Interpretation****2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn:****2.-(1) In these Regulations**

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw person a benodwyd gan awdurdod gorfodi o dan adran 67(3) o'r Ddeddf;

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Agriculture Act 1970(c);

ystyr "awdurdod gorfodi" ("*enforcement authority*") yw pob cyngor sir a phob cyngor bwrdeistref sirol;

"enforcement authority" ("*awdurdod gorfodi*") means each county council and each county borough council;

ystyr "darpariaeth Gymunedol benodedig"

"inspector" ("*arolygydd*") means a person appointed by an enforcement authority under

(a) O.S. 2003/2901.

(b) 1972 p.68.

(a) S.I. 2003/2901.

(b) 1972 c.68.

(c) 1970 c.40.

("specified Community provision") yw darpariaeth yn Rheoliad 1829/2003 a bennir yng Ngholofn 1 ac a ddisgrifir yng Ngholofn 2 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn;

ystyr y "Ddeddf" (*the Act*) yw Deddf Amaethyddiaeth 1970(a);

ystyr "Rheoliad 1829/2003" (*Regulation 1829/2003*) yw Rheoliad (EC) Rhif 1829/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig(b).

(2) Yn y Rheoliadau hyn-

- (a) mae unrhyw gyfeiriad at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn Rheoliad 1829/2003;
- (b) mae unrhyw gyfeiriad at reoliad â rhif, oni nodir i'r gwrthwyneb, yn gyfeiriad at y rheoliad sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn;
- (c) mae unrhyw gyfeiriad at Atodlen yn gyfeiriad at yr Atodlen yn y Rheoliadau hyn oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall.

(3) Mae i ymadroddion eraill a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr un ystyr ag a roddir i'r ymadroddion Saesneg cyfatebol yn Rheoliad 1829/2003.

Cyflwyno ceisiadau am gael awdurdodiad i farchnata cynhyrchion

3. Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yw'r awdurdod cymwys cenedlaethol at ddibenion Pennod III o Reoliad 1829/2003(c).

Gorfodi

4. Rhaid i bob awdurdod gorfodi, o fewn ei ardal, orfodi a gweithredu darpariaethau'r Rheoliadau hyn a darpariaethau Pennod III o Reoliad 1829/2003.

Tramgwyddau a Chosbau

5.-(1) Mae unrhyw berson sydd yn mynd yn groes i'r ddarpariaeth Gymunedol benodedig y cyfeirir ati yn Rhan I o'r Atodlen neu'n methu â chydymffurfio â hi yn euog o dramgwydd ac yn agored -

- (a) o'i gollfarnu'n ddiannod i gyfnod mewn carchar nad yw'n hwy na thri mis, neu i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol, neu i'r ddau; neu
- (b) o'i gollfarnu ar ddiad i gyfnod mewn carchar nad yw'n hwy na dwy flynedd neu i ddirwy, neu i'r ddau.

section 67(3) of the Act;

"Regulation 1829/2003" (*Rheoliad 1829/2003*) means Regulation (EC) No. 1829/2003 of the European Parliament and of the Council on genetically modified food and feed(a);

"specified Community provision" (*darpariaeth Gymunedol benodedig*) means a provision of Regulation 1829/2003 specified in Column 1 and described in Column 2 of the Schedule to these Regulations.

(2) In these Regulations -

- (a) any reference to a numbered article is a reference to the article so numbered in Regulation 1829/2003;
- (b) any reference to a numbered regulation is, unless the contrary is indicated, a reference to the regulation so numbered in these Regulations;
- (c) any reference to a Schedule is a reference to the Schedule to these Regulations unless the context otherwise requires.

(3) Other expressions used in these Regulations and in Regulation 1829/2003 have the same meaning in these Regulations as in Regulation 1829/2003.

Submission of applications for authorisation to market products

3. The national competent authority for the purposes of Chapter III of Regulation 1829/2003 is the Food Standards Agency(b).

Enforcement

4. Each enforcement authority within its area, is to enforce and execute the provisions of these Regulations and Chapter III of Regulation 1829/2003.

Offences and Penalties

5.-(1) Any person who contravenes or fails to comply with the specified Community provision referred to in Part I of the Schedule is guilty of an offence and liable -

- (a) on summary conviction to a term of imprisonment not exceeding three months or to a fine not exceeding the statutory maximum, or to both; or
- (b) on conviction on indictment to a term of imprisonment not exceeding two years or to a fine, or to both.

(a) 1970 p.40.

(b) OJ Rhif L268, 18.10.2003, t.1.

(c) Ei chyfeiriad yng Nghymru yw: Llawr 11, Southgate House, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW.

(a) OJ No. L268, 18.10.2003, p.1.

(b) Whose address in Wales is 11th Floor, Southgate House, Wood Street, Cardiff CF10 1EW.

(2) Mae unrhyw berson sydd yn mynd yn groes i unrhyw un o'r darpariaethau Cymunedol penodedig y cyfeirir atynt yn Rhan II o'r Atodlen, neu'n methu â chydymffurfio â hi, yn euog o dramgwydd ac yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i gyfnod mewn carchar nad yw'n hwy na thri mis neu i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol, neu i'r ddau.

(3) Mae unrhyw berson sy'n euog o dramgwydd o dan reoliad 8(2) yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i gyfnod yn y carchar nad yw'n hwy na thri mis neu i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol, neu i'r ddau.

Cymhwyso amrywiol ddarpariaethau'r Ddeddf

6.-(1) Mae darpariaethau'r Ddeddf a restrir ym mharagraff (2) isod yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn a Rheoliad 1829/2003 a hynny'n ddarostyngedig i'r addasiad a nodir ym mharagraff (2)(a) ac fel petai -

- (a) unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at "feeding stuff" yn gyfeiriad at "feed";
- (b) unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu unrhyw Ran ohoni yn gyfeiriad at y Rheoliadau hyn a Rheoliad 1829/2003;
- (c) unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at "samples taken in a prescribed manner" yn gyfeiriad at samplau a gymerwyd mewn modd a ragnodir yn Rhan II o Atodlen 1 o Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Samplu a Dadansoddi) 1999(a);
- (ch) unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at "prescribed method of analysis"-
 - (i) mewn perthynas â chanfod bod organedd awdurdodedig penodol a addaswyd yn enetig wedi'i ddefnyddio, yn gyfeiriad at y dull a ddisgrifir yn Erthygl 17(3)(i) o Reoliad 1829/2003 ar gyfer canfod ac adnabod y digwyddiad trawsnewid, neu
 - (ii) pan nad oes unrhyw ddull o'r fath yn bodoli, neu pan fo'r organedd penodol a addaswyd yn enetig heb ei awdurdodi, yn gyfeiriad at unrhyw ddull sy'n bodloni rheoliad 6(4)(b) o Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Samplu a Dadansoddi) 1999(b).

(2) Y darpariaethau hynny y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw -

- (a) adran 76 (pŵer arolygydd i fynd i mewn i fangre a chymryd samplau), sy'n gymwys fel petai paragraff (b) o is-adran (2) o'r adran honno yn cynnwys pŵer i'w gwneud yn ofynnol bod unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â'r bwyd anifeiliaid yn cael eu

(a) O.S. 1999/1663; O.S. 2002/1797 yw'r offeryn diwygio perthnasol.
(b) O.S. 1999/1663.

(2) Any person who contravenes or fails to comply with any of the specified Community provisions referred to in Part II of the Schedule is guilty of an offence and liable on summary conviction to imprisonment for a term not exceeding three months or to a fine not exceeding level 5 on the standard scale, or to both.

(3) Any person guilty of an offence under regulation 8(2) is liable on summary conviction to a term of imprisonment not exceeding three months or to a fine not exceeding level 5 on the standard scale, or to both.

Application of various provisions of the Act

6.-(1) The provisions of the Act listed in paragraph (2) below apply for the purposes of these Regulations and Regulation 1829/2003 subject to the modification set out in paragraph (2)(a) and as if -

- (a) any reference in those provisions to a feeding stuff were a reference to feed;
- (b) any reference in those provisions to the Act or any Part of it were a reference to these Regulations and Regulation 1829/2003;
- (c) any reference in those provisions to samples taken in a prescribed manner were a reference to samples taken in a manner prescribed in Part II of Schedule 1 of the Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) Regulations 1999(a);
- (d) any reference in those provisions to a prescribed method of analysis were a reference to -
 - (i) in relation to detecting the use of a particular authorised genetically modified organism, the method described in Article 17(3)(i) of Regulation 1829/2003 for detection and identification of the transformation event, or
 - (ii) where no such method exists, or where the particular genetically modified organism is unauthorised, any method that satisfies regulation 6(4)(b) of the Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) Regulations 1999(b).

(2) Those provisions referred to in paragraph (1) are -

- (a) section 76 (inspector's power to enter premises and take samples), which applies as if paragraph (b) of subsection (2) of that section included power to require production of and to

(a) S.I. 1999/1663; the relevant amending instrument is S.I. 2002/1797.
(b) S.I. 1999/1663.

- dangos a phwer i gymryd copiâu o'r dogfennau hynny;
- (b) adran 77 (rhannu samplau a'u dadansoddi gan ddadansoddydd amaethyddol);
 - (c) adran 78(2), (3), (4), (5), (6), (7), (8) a (10) (dadansoddiad pellach gan Fferylllydd y Llywodraeth);
 - (ch) adran 79(4), (5), (6), (8) a (10) (darpariaethau atodol ynglyn â samplau a dadansoddi);
 - (d) adran 80 (cychwyn erlyniadau);
 - (dd) adran 81 (tramgwyddau oherwydd bai person arall);
 - (e) adran 82 (amddiffyniad camgymeriad, damwain, etc.);
 - (f) adran 83 (arfer pwerau gan arolygwyr);
 - (ff) adran 110 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol).

Cymhwyso amrywiol ddarpariaethau Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Samplu a Dadansoddi) 1999

7.-(1) Mae darpariaethau Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Samplu a Dadansoddi) 1999(a) a restrir ym mharagraff (2) yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn a Rheoliad 1829/2003 yn ddarostyngedig i'r addasiadau a nodir yn y paragraff hwnnw ac fel petai unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at "feeding stuff" yn gyfeiriad at "feed".

(2) Y darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw -

- (a) rheoliad 3(a) (dull cymryd samplau a'u selio);
- (b) rheoliad 4 (dull anfon samplau), sy'n gymwys fel petai'r cyfeiriad at "subsection (1)(b) or (2) of section 77 of the Act" yn gyfeiriad at y Rheoliadau hyn a Rheoliad 1829/2003;
- (c) rheoliad 5 (cymwysterau dadansoddydd amaethyddol), sy'n gymwys fel petai'r cyfeiriad at "the prescribed qualifications for an agricultural analyst or a deputy agricultural analyst for the purposes of section 67(5) of the Act insofar as it relates to feeding stuffs" yn gyfeiriad at y cymwysterau y mae eu hangen ar berson sy'n dadansoddi bwyd anifeiliaid at ddibenion y Rheoliadau hyn a Rheoliad 1829/2003;
- (ch) rheoliad 6(4) (dulliau dadansoddi), sy'n gymwys fel petai'r cyfeiriad at "the Act" yn gyfeiriad at y Rheoliadau hyn a Rheoliad 1829/2003;

take copies of any documentation relating to the feed;

- (b) section 77 (division of samples and analysis by agricultural analyst);
- (c) section 78(2), (3), (4), (5), (6), (7), (8) and (10) (further analysis by the Government Chemist);
- (d) section 79(4), (5), (6), (8) and (10) (supplementary provisions relating to samples and analysis);
- (e) section 80 (institution of prosecutions);
- (f) section 81 (offences due to fault of other person);
- (g) section 82 (defence of mistake, accident, etc.);
- (h) section 83 (exercise of powers by inspectors);
- (i) section 110 (offences by bodies corporate).

Application of various provisions of the Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) Regulations 1999

7.-(1) The provisions of the Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) Regulations 1999(a) listed in paragraph (2) apply for the purposes of these Regulations and Regulation 1829/2003 subject to the modifications set out in that paragraph and as if any reference in those provisions to a feeding stuff were a reference to feed.

(2) The provisions referred to in paragraph (1) are -

- (a) regulation 3(a) (manner of taking and sealing samples);
- (b) regulation 4 (method of sending samples), which applies as if the reference to "subsection (1)(b) or (2) of section 77 of the Act" were a reference to these Regulations and Regulation 1829/2003;
- (c) regulation 5 (qualifications of agricultural analyst), which applies as if the reference to "the prescribed qualifications for an agricultural analyst or a deputy agricultural analyst for the purposes of section 67(5) of the Act insofar as it relates to feeding stuffs" were a reference to the qualifications required by a person analysing feed for the purposes of these Regulations and Regulation 1829/2003;
- (d) regulation 6(4) (methods of analysis), which applies as if the reference to "the Act" were a reference to these Regulations and Regulation 1829/2003;

(a) O.S. 1999/1663; y diwygiadau perthnasol yw O.S. 2003/1677 (Cy.180) ac O.S. 2002/1797 (Cy.172).

(a) S.I. 1999/1663; relevant amendments are S.I. 2003/1677 (W.180) and S.I. 2002/1797 (W.172).

- (d) rheoliad 7 (tystysgrif i'w defnyddio ar gyfer canlyniadau dadansoddiad), sy'n gymwys fel petai'r cyfeiriad at "section 77(4) of the Act" yn gyfeiriad at adran 77(4) o'r Ddeddf fel y'i cymhwysir gan y Rheoliadau hyn;
- (dd) rheoliad 8 (terfyn amser ar gyfer dadansoddi'r cynnwys olew mewn bwyd anifeiliaid) sy'n gymwys fel petai'r cyfeiriad at sampl a gymerwyd "in the prescribed manner" yn gyfeiriad at sampl a gymerwyd yn unol â'r Rheoliadau hyn;
- (e) Atodlen 1 (rheolau manwl ar gyfer samplu);
- (f) Atodlen 3 (ffurf safonol ar dystysgrif i'w defnyddio ar gyfer canlyniadau dadansoddiad) sy'n gymwys fel petai'r cyfeiriad at "Part IV of the Agriculture Act 1970" yn gyfeiriad at Reoliadau Bwyd Anifeiliaid a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004.

Arolygu, atafaelu a dal gafael ar fwyd anifeiliaid a amheuir

8.-(1) Caiff arolygydd arolygu ar bob adeg resymol unrhyw ddeunydd sydd wedi'i fwriadu ar gyfer ei ddefnyddio fel bwyd anifeiliaid ac sydd -

- (a) wedi'i roi ar y farchnad;
- (b) ym meddiant unrhyw berson, neu sydd wedi'i adneuo gydag ef neu wedi'i draddodi iddo er mwyn ei roi ar y farchnad neu er mwyn ei baratoi i'w roi ar y farchnad,

ac mae paragraffau (2) i (9) isod yn gymwys pan fo'n ymddangos i'r arolygydd, wrth gymryd yr holl wybodaeth sydd ar gael iddo i ystyriaeth, y gall y deunydd fethu â chydymffurfio â darpariaeth Gymunedol benodedig.

(2) Caiff yr arolygydd naill ai -

- (a) hysbysu'r person y mae'r deunydd o dan ei ofal na ddylid gwneud y canlynol gyda'r deunydd nac unrhyw gyfran benodedig ohono nes bod yr hysbysiad wedi'i dynnu'n ôl-
 - (i) ei ddefnyddio fel bwyd anifeiliaid; na
 - (ii) ei symud neu ei symud ac eithrio i rywle a bennir yn yr hysbysiad; neu
- (b) atafaelu'r deunydd a'i symud er mwyn trefnu bod ynad heddwch yn ymdrin ag ef;

ac mae unrhyw berson sy'n mynd yn groes i ofynion hysbysiad o dan is-baragraff (a) uchod, gan wybod hynny, yn euog o dramgwydd.

(3) Pan fo'r arolygydd yn arfer y pwerau a roddwyd gan baragraff (2)(a) uchod, mae i fod i benderfynu, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a beth bynnag o fewn 21 diwrnod, a yw wedi'i fodloni bod y deunydd yn cydymffurfio â'r darpariaethau Cymunedol penodedig neu beidio ac -

- (e) regulation 7 (certificate to be used for results of analysis), which applies as if the reference to "section 77(4) of the Act" were a reference to section 77(4) of the Act as applied by these Regulations;
- (f) regulation 8 (time limit for analysis of oil content of feed) which applies as if the reference to a sample taken in "the prescribed manner" were a reference to a sample taken in accordance with these Regulations;
- (g) Schedule 1 (detailed rules for sampling);
- (h) Schedule 3 (standard form of certificate to be used for results of analysis) which applies as if the reference to "Part IV of the Agriculture Act 1970" were a reference to the Genetically Modified Animal Feed (Wales) Regulations 2004.

Inspection, seizure and detention of suspected animal feed

8.-(1) An inspector may at all reasonable times inspect any material intended for use as feed which -

- (a) has been placed on the market;
- (b) is in the possession of, or has been deposited with or consigned to, any person for the purpose of placing on the market or of preparation for placing on the market,

and paragraphs (2) to (9) below apply where, taking account of all the information available to him or her, it appears to the inspector that the material may fail to comply with a specified Community provision.

(2) The inspector may either -

- (a) give notice to the person in charge of the material that, until the notice is withdrawn, the material or any specified portion of it -
 - (i) is not to be used as feed; and
 - (ii) either is not to be removed or is not to be removed except to some place specified in the notice; or
- (b) seize the material and remove it in order to have it dealt with by a justice of the peace;

and any person who knowingly contravenes the requirements of a notice under sub-paragraph (a) above is guilty of an offence.

(3) Where the inspector exercises the powers conferred by paragraph (2)(a) above, he or she is, as soon as is reasonably practicable and in any event within 21 days, to determine whether or not he or she is satisfied that that the material complies with the specified Community provisions and -

- (a) os caiff ei fodloni ynglyn â hynny, mae i fod i dynnu'r hysbysiad yn ôl ar unwaith;
- (b) os na chaiff ei fodloni ynglyn â hynny, mae i fod i atafaelu'r deunydd a'i symud oddi yno er mwyn trefnu bod ynad heddwch yn ymdrin â'r deunydd hwnnw.

(4) Pan fo'r arolygydd yn arfer y pwerau a roddir gan baragraffau (2)(b) neu (3)(b) uchod, mae i fod i hysbysu'r person y mae'r deunydd o dan ei ofal o'i fwriad i drefnu bod ynad heddwch yn ymdrin â'r deunydd ac -

- (a) mae gan unrhyw berson, a allai o dan reoliad 5 fod yn agored i erlyniad mewn perthynas â'r deunydd, hawl i gael gwrandawriad ac i alw tystion, os yw'n mynd gerbron yr ynad heddwch y mae'n dod i'w ran i ymdrin â'r deunydd; a
- (b) caiff yr ynad heddwch hwnnw fod yn aelod o'r llys y mae unrhyw berson wedi'i gyhuddo ger ei fron o dramgwydd mewn perthynas â'r deunydd hwnnw ond nid oes rhaid iddo fod yn aelod o'r llys hwnnw.

(5) Os yw'n ymddangos i ynad heddwch, ar sail unrhyw dystiolaeth y mae'n barnu ei bod yn briodol o dan yr amgylchiadau, fod unrhyw ddeunydd y mae'n dod i'w ran i ymdrin ag ef o dan y rheoliad hwn yn methu â chydymffurfio â darpariaeth Gymunedol benodedig, yna, yn ddarostyngedig i baragraff (6) isod, mae i fod i gondemnio'r deunydd a gorchymyn -

- (a) bod y deunydd i gael ei ddinistrio neu ei waredu yn y fath fodd ag i'w atal rhag cael ei ddefnyddio ar gyfer ei fwyta gan bobl, neu ar gyfer bwyd anifeiliaid; a
- (b) bod unrhyw dreuliau a dynnwyd yn rhesymol mewn cysylltiad â'r gwaith dinistrio neu waredu i fod i gael eu talu gan y gweithredydd.

(6) Yn achos deunydd y cyfeirir ato yn Erthygl 15.1 sy'n destun awdurdodiad a roddwyd o dan Reoliad 1829/2003 ac sydd wedi'i gynhyrchu yn unol ag unrhyw amodau sy'n ymwneud â'r awdurdodiad hwnnw, ond nad yw'n dwyn y label priodol sy'n ofynnol o dan Erthygl 25, caiff yr ynad heddwch, yn ôl ei ddisgresiwn, orchymyn -

- (a) bod y deunydd yn cael ei labelu'n briodol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac ar draul y gweithredydd; a
- (b) bod y deunydd yn cael ei ryddhau a'i roi yng ngafael y gweithredydd.

(7) Os yw hysbysiad o dan baragraff (2)(a) uchod yn cael ei dynnu'n ôl, neu os yw'r ynad heddwch y mae'n dod i'w ran i ymdrin ag unrhyw ddeunydd o dan y rheoliad hwn yn gwrthod ei gondemnio, neu'n gwrthod gwneud gorchymyn i'r deunydd gael ei labelu'n briodol, mae'r awdurdod gorfodi i fod i dalu iawndal i berchennog y deunydd am unrhyw ddibrisiant yn ei werth sy'n deillio o'r camau a gymerwyd gan yr arolygydd.

- (a) if he or she is so satisfied, is to forthwith withdraw the notice;
- (b) if he or she is not so satisfied, is to seize the material and remove it in order to have it dealt with by a justice of the peace.

(4) Where the inspector exercises the powers conferred by paragraphs (2)(b) or (3)(b) above, he or she is to inform the person in charge of the material of his or her intention to have it dealt with by a justice of the peace and -

- (a) any person who under regulation 5 might be liable to a prosecution in respect of the material is, if he or she attends before the justice of the peace by whom the material falls to be dealt with, entitled to be heard and to call witnesses; and
- (b) that justice of the peace may, but need not, be a member of the court before which any person is charged with an offence in relation to that material.

(5) If it appears to a justice of the peace, on the basis of such evidence as he or she considers appropriate in the circumstances, that any material falling to be dealt with by him or her under this regulation fails to comply with a specified Community provision, then subject to paragraph (6) below he or she is to condemn the material and order -

- (a) the material to be destroyed or to be so disposed of as to prevent it from being used for human consumption, or for animal feed; and
- (b) any expenses reasonably incurred in connection with the destruction or disposal to be defrayed by the operator.

(6) In the case of material referred to in Article 15.1 which is the subject of an authorisation granted under Regulation 1829/2003 and has been produced in accordance with any conditions relating to that authorisation, but does not bear the appropriate labelling as required by Article 25, the justice of the peace may, at his or her discretion order -

- (a) that the material be labelled properly as soon as is reasonably practicable and at the expense of the operator; and
- (b) the release of the material into the custody of the operator.

(7) If a notice under paragraph (2)(a) above is withdrawn, or the justice of the peace by whom any material falls to be dealt with under this regulation refuses to condemn it, or to make an order for the proper labelling of the material, the enforcement authority is to compensate the owner of the material for any depreciation in its value resulting from the action taken by the inspector.

(8) Pan fo unrhyw ddeunydd sy'n methu â chydymffurfio â darpariaeth Gymunedol benodedig yn rhan o swp, cyfran neu lwyth o fwyd anifeiliaid o'r un dosbarth neu ddisgrifiad, dylid rhagdybio at ddbenion y rheoliad hwn, nes y profir i'r gwrthwyneb, fod yr holl fwyd anifeiliaid yn y swp hwnnw, y gyfran honno neu'r llwyth hwnnw yn methu â chydymffurfio â'r ddarpariaeth Gymunedol benodedig honno.

(9) Mae unrhyw gwestiwn y mae dadl yn ei gylch ynghylch yr hawl i gael iawndal neu swm unrhyw iawndal sy'n daladwy o dan baragraff (7) i fod i gael ei benderfynu drwy gymrodeddu.

9. O ran unrhyw hysbysiad sydd i'w roi o dan reoliad 8 -

- (a) rhaid iddo gael ei lofnodi gan arolygydd sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod gorfodi;
- (b) os yw'n honni ei fod yn dwyn llofnod swyddog y mae'r hysbysiad yn datgan ei fod yn arolygydd (ac mae llofnod yn cynnwys ffacsimili o lofnod drwy ba fodd bynnag y mae wedi'i atgynhyrchu), mae i'w ystyried, oni phofir i'r gwrthwyneb, yn hysbysiad sydd wedi'i ddyroddi'n briodol gan yr arolygydd;
- (c) mae i fod i gael ei roi i'r person y mae'r deunydd o dan ei ofal -
 - (i) drwy ei drosglwyddo i'r person hwnnw;
 - (ii) drwy ei adael yn ei swyddfa, neu ei anfon mewn llythyr rhagdaledig sydd wedi'i gyfeirio ato yn y swyddfa honno;
 - (iii) yn achos cwmni neu gorff corfforaethol, drwy ei drosglwyddo i'w ysgrifennydd neu i'w glerc yn ei swyddfa gofrestrdedig neu ei brif swyddfa, neu drwy ei anfon mewn llythyr rhagdaledig sydd wedi'i gyfeirio at yr ysgrifennydd neu'r clerc yn y swyddfa honno;
 - (iv) yn achos unrhyw berson arall, drwy ei adael neu ei anfon mewn llythyr rhagdaledig sydd wedi'i gyfeirio ato yn ei breswylfan arferol neu ei breswylfan hysbys ddiwethaf;
 - (v) pan nad yw'n ymarferol canfod, ar ôl ymchwiliad rhesymol, enw a chyfeiriad y person y dylid cyflwyno'r hysbysiad iddo, neu pan fo'r fangre lle mae bwyd anifeiliaid yn cael ei gadw heb ei meddiannu, caniateir i'r hysbysiad gael ei gyfeirio at "berchennog" neu "feddiannydd" y fangre lle mae'r bwyd anifeiliaid, a'i drosglwyddo i ryw berson yn y fangre honno, neu os nad oes unrhyw berson yn y fangre y gellir ei drosglwyddo iddo, drwy ei osod neu osod copi ohono ar ryw ran amlwg o'r fangre.

(8) Where any material which fails to comply with a specified Community provision is part of a batch, lot or consignment of feed of the same class or description, it is to be presumed for the purposes of this regulation, until the contrary is proved, that all of the feed in that batch, lot or consignment fails to comply with that specified Community provision.

(9) Any disputed question as to the right or the amount of any compensation payable under paragraph (7) is to be determined by arbitration.

9. Any notice to be given under regulation 8 -

- (a) must be signed by an inspector acting on behalf of the enforcement authority;
- (b) if purporting to bear the signature (which includes a facsimile of a signature by whatever means reproduced) of an officer who is expressed to be an inspector, is to be deemed, unless the contrary is proven, to have been duly issued by the inspector;
- (c) is to be given to the person in charge of the material by either -
 - (i) delivering it to that person;
 - (ii) by leaving it, or sending it in a prepaid letter addressed to him at his office;
 - (iii) in the case of an incorporated company or body, by delivering it to their secretary or clerk at their registered or principal office, or by sending it in a prepaid letter addressed to him or her at that office;
 - (iv) in the case of any other person by leaving it or sending it in a prepaid letter addressed to him or her at his or her usual or last known residence;
 - (v) where it is not practicable after reasonable enquiry to ascertain the name and address of the person on whom the notice should be served, or where the premises in which feed are kept are unoccupied, the notice may be addressed to the "owner" or "occupier" of the premises in which the feed is situated, and delivered to some person on those premises, or if there is no person on the premises to whom it can be delivered, by affixing it or a copy of it to some conspicuous part of the premises.

Y terfyn amser ar gyfer erlyniadau

10. Ni ddylid cychwyn unrhyw erlyniad am dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn ar ôl i'r naill neu'r llall o'r cyfnodau canlynol ddod i ben -

- (a) tair blynedd o ddyddiad cyflawni'r tramgwydd; neu
- (b) blwyddyn o ddyddiad ei ddarganfod gan yr erlynydd,

p'un bynnag yw'r cynharaf.

Time Limit for prosecutions

10. No prosecution for an offence under these Regulations is to be begun after the expiry of -

- (a) three years from the commission of the offence; or
- (b) one year from its discovery by the prosecutor,

whichever is the earlier.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a).

7 Rhagfyr 2004

7 December 2004

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

YR ATODLEN

Rheoliadau 2 a 5

DARPARIAETHAU CYMUNEDOL PENODEDIG

RHAN I

<i>Y Ddarpariaeth yn Rheoliad 1829/2003</i>	<i>Y Pwnc</i>
Erthygl 16.2	Gwahardd rhoi ar y farchnad, defnyddio neu brosesu cynnyrch y cyfeirir ato yn Erthygl 15.1 onid oes awdurdodiad ar ei gyfer a bod y cynnyrch yn bodloni amodau perthnasol yr awdurdodiad.

RHAN II

<i>Y Ddarpariaeth yn Rheoliad 1829/2003</i>	<i>Y Pwnc</i>
Erthygl 20.6	Gofyniad bod cynhyrchion y mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu mesur mewn perthynas â hwy o dan Erthygl 20.6 yn cael eu tynnu oddi ar y farchnad.
Erthygl 21.1	Gofyniad bod rhaid i ddeiliad yr awdurdodiad a'r partiön o dan sylw gydymffurfio â'r amodau neu'r cyfyngiadau a osodir ar awdurdodiad ar gyfer y cynnyrch hwnnw, a bod rhaid i ddeiliad yr awdurdodiad gydymffurfio â gofynion monitro ar ôl i'r cynnyrch fod ar y farchnad.
Erthygl 21.3	Gofyniad bod deiliad awdurdodiad yn hysbysu'r Comisiwn o unrhyw wybodaeth wyddonol neu dechnegol newydd sy'n ymwneud â chynnyrch, a allai ddylanwadu ar werthuso diogelwch y bwyd anifeiliaid wrth ei ddefnyddio neu o unrhyw waharddiad neu gyfyngiad ar y bwyd anifeiliaid mewn trydedd wlad
Erthygl 25	Gofyniad am fynegiadau labelu penodol.

THE SCHEDULE

Regulations 2 and 5

SPECIFIED COMMUNITY PROVISIONS

PART I

<i>Provision of Regulation 1829/2003</i>	<i>Subject Matter</i>
Article 16.2	Prohibition on placing on the market, using or processing a product referred to in article 15.1 unless it is covered by an authorisation and satisfies relevant conditions of the authorisation.

PART II

<i>Provision of Regulation 1829/2003</i>	<i>Subject Matter</i>
Article 20.6	Requirement that products in respect of which the Commission have adopted a measure under Article 20.6 shall be withdrawn from the market.
Article 21.1	Requirement that the authorisation holder and the parties concerned must comply with conditions or restrictions imposed on an authorisation for that product, and the authorisation holder must comply with post-market monitoring requirements.
Article 21.3	Requirement that an authorisation holder inform the Commission of any new scientific or technical information relating to a product, which might influence the evaluation of the safety in use of the feed, or of any prohibition or restriction on the feed in a third country
Article 25	Requirement for certain labelling indications.

© Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2004


Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W182/12/04

ON

ISBN 0-11-091046-X



9 780110 910468